**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

8 Rhagfyr 2017

Annwyl Huw

Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn pryderu am beth amser ynghylch y modd y mae Comisiwn y Cynulliad yn defnyddio'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau, ac rydym eisoes wedi gofyn am eich cyngor ynghylch dull gweithredu Comisiwn y Cynulliad wrth bennu ei gyllideb.

Yn ddiweddar, cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar Gyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2018-19, a chytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i gadarnhau sut y mae seneddau eraill yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â chyflogau a lwfansau Aelodau. Yn ein cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2017, cytunwyd ar gylch gorchwyl ein hymchwiliad, sydd fel a ganlyn:

Ystyried:

- sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn rhagweld ei gyllideb ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau;
- a yw'r ffordd y mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu gwybodaeth am y tanwariant yn glir ac yn dryloyw;
- sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn penderfynu defnyddio'r tanwariant ar ôl cyllido penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau; a
- sut y mae seneddau eraill yn y DU a thu hwnt yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â chyflogau a lwfansau Aelodau.

I gynorthwyo ein hymchwiliad, hoffem eich gwahodd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod y materion hyn ymhellach. Fel y soniais, rydym eisoes wedi ystyried

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

cyngor a roddwyd gan eich swyddfa ynghylch dull gweithredu cyfredol Comisiwn y Cynulliad, ac rwyf wedi atodi copi o'r llythyr hwnnw er hwylustod. Pe hoffech ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol neu ddiweddaru'r cyngor sydd wedi'i ddarparu yn y llythyr hwn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech anfon y wybodaeth hon atom erbyn **dydd Gwener 9 Chwefror 2018**.

Os bydd angen unrhyw eglurhad neu wybodaeth ychwanegol arnoch, cysylltwch â: Leanne Hatcher, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6343, SeneddCyllid@cynulliad.cymru

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*